Dathlu 100 mlynedd o'r bleidlais i fenywod

Youth Cymru

RYN NI'N 100

Pecyn i Bobl Ifanc

# ar yr Hawl i Bleidleisio

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

YN CYFLWYNO...

R'YN NI'N 100

**Croeso,** i'r Pecyn Bobl Ifanc ar yr Hawl i Bleidleisio - R'YN NI'N 100.

Sefydliad gwirfoddol cenedlaethol yw Youth Cymru a chanddo dros wythdeg mlynedd o brofiad o gynorthwyo pobl ifanc a gweithwyr ieuenctid yng Nghymru. Rydyn ni'n gweithio ar y cyd â'n haelodau a sefydliadau ieuenctid eraill i ddarparu cyfleoedd, prosiectau a rhaglenni unigryw ac arloesol sy'n newid ac yn gwella bywydau pobl ifanc yng Nghymru.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cynllun Grantiau Canmlwyddiant y Bleidlais i Fenywod Llywodraeth Cymru sy'n ariannu'r prosiect hwn.

Prosiect i ddathlu 100 mlynedd ers i fenywod gael yr hawl i bleidleisio yw R'yn ni'n 100, a bydd yn rhedeg tan fis Tachwedd 2018.

Cynhyrchwyd y pecyn hwn i'ch helpu chi ar eich siwrnai fel Hyrwyddwr yr Hawl i Bleidleisio, gan eich taclu â rhai o'r sgiliau a'r wybodaeth a fydd yn eich cynorthwyo chi i gyflawni eich Prosiect Addysgu a Dathlu Gweithredu Cymdeithasol eich hun. Yma cewch adnoddau a fydd yn eich cynorthwyo chi i ddeall yr hanes sydd y tu ôl yr ymgyrch dros y bleidlais i ferched. Gallwch ddefnyddio'r pecyn hwn fel dogfen gynllunio i gofnodi sut rydych chi'n rheoli eich prosiect hefyd.

Cymerodd 60 o hyrwyddwyr ifanc rhan yn y prosiect hwn rhwng Ebrill a Thachwedd 2018. Fe ddysgon nhw am hanes y bleidlais i fenywod dros y blynyddoedd, gan gynnwys straeon menywod lleol, a rhai straeon na chlywyd o'r blaen. Trwy hyn, cafodd eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth am y bleidlais i fenywod, cydraddoldeb a hawliau menywod ei chyfoethogi. Wedyn cawsant gyfle i weithio gyda'u hybiau i greu eu Prosiectau Gweithredu Cymdeithasol Addysgu a Dathlu eu hunain, sydd wedi cynorthwyo eu cymunedau i ddysgu am y bleidlais i fenywod, y broses ddemocrataidd a chwarae rhan mewn bywyd dinesig. Nawr dyma'ch tro chi!

**Gallwch gynnwys:**

- Celf
- Cerddoriaeth
- Barddoniaeth
- Ffasiwn
- Digwyddiadau
- Addysgu/Hyfforddi
- Creu Ffilm
- Dawns
- Drama

# CYTUNDEB GRŴP

## Pwrpas

Cytundeb grŵp yw un o'r ymarferion pwysicaf wrth weithio gyda grŵp. Pwrpas y cytundeb grŵp yw creu amgylchedd agored o barch lle gall y grŵp gydweithio'n greadigol a lle gall unigolion deimlo'n ddiogel wrth rannu eu syniadau a'u safbwyntiau. Mae hi'n bwysig taw'r grŵp sy'n llunio'r cytundeb, nid y tiwtor, am ei bod yn rhoi rheolaeth iddyn nhw yn hytrach na bod rhywun yn 'dweud y drefn' wrthyn nhw.

## Adnoddau

- Papur siart droi
- Peniau

## Gweithgaredd

- Esboniwch i'r grŵp ei bod hi'n ddigon posibl y byddan nhw'n trafod materion sensitif ac y dylent fynd ati fel grŵp i gytuno ar y rheolau i'w dilyn yn ystod y sesiwn.
- Rhestrwch y rheolau ar y siart. Gofynnwch i'r holl bobl ifanc a ydyn nhw'n deall y rheolau, neu a oes angen esboniad pellach. Ar ôl eu cwblhau, gosodwch y rheolau mewn man lle gall pawb eu gweld trwy gydol y sesiwn gan ddefnyddio'r deunydd glynu i'w diogelu os oes angen
- Os oes rhywun yn torri'r rheolau, cyfeiriwch nhw at daflen reolau'r grŵp, neu mae'n well fyth os yw'r grŵp yn cyfeirio'r person sydd wedi torri'r rheolau at daflen reolau'r grŵp
- Cadwch y rheolau ac ewch nôl atynt ar ddechrau pob sesiwn.

## RHEOLAU'R GRŴP:

**1.** Mae popeth sy'n cael ei ddweud yn y grŵp yn aros yn y grŵp

**2.** Parchwch bawb

**3.** Gwnewch eich gorau

# Datganiad Polisi Cyfleoedd Cyfartal

Mae'r wybodaeth a ddarperir ar y rhan yma o'r ffurflen yn helpu i fonitro gweithrediad Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Youth Cymru (mae copi llawn o'r polisi ar gael ar gais).
Byddem yn ddiolchgar pe baech chi'n gallu llenwi'r ffurflen hon a'i dychwelyd.
Nid oes gorfodaeth arnoch i ddarparu'r wybodaeth yn yr adran hon.
Mae'r ffurflen hon yn gyfrinachol ac yn ddienw (caiff ei gwahanu wrth eich cais). Caiff y wybodaeth a ddarperir ei thrin yn unol â Pholisi Diogelu Data Youth Cymru.

**RHYW**

O Benywaidd
O Gwrywaidd
O A fyddech chi'n disgrifio eich rhyw mewn ffordd wahanol?
Os felly, rhowch fanylion: ______________
O Ddim am ddweud

*A yw eich hunaniaeth rhyweddol yn cyfateb i'r categori rhyw a roddwyd i chi adeg eich geni?*

O Ydy
O Nac Ydy
O Ddim am ddweud

**OEDRAN**

O O dan 26 oed
O 26-50
O 51-65
O Dros 66 oed
O Ddim am ddweud

**CYFEIRIADAETH RYWIOL**

O Deurywiol
O Hoyw
O Lesbiaidd
O Heterorywiol / Syth
O Os byddai'n well gennych ddefnyddio term arall, rhowch fanylion: ______________
O Ddim am ddweud

**CREFYDD / FFYDD / CREDO**

O Bwdhydd
O Cristion
O Hindŵ
O Iddew
O Mwslim
O Dim crefydd
O Sikh
O Arall, rhowch fanylion: ______________
O Ddim am ddweud

PARHAD

## ETHNIGRWYDD

- O Gwyn
- O Du - Caribïaidd
- O Du - Affricanaidd
- O Cefndir du arall
- O Asiaidd - Indiaidd
- O Asiaidd - Pacistanaidd
- O Asiaidd - Bangladesiaidd
- O Tsieineaidd
- O Cefndir Asiaidd Arall
- O Cymysg - Gwyn a Du Caribïaidd
- O Cymysg - Gwyn a Du Affricanaidd
- O Cymysg - Gwyn ac Asiaidd
- O Cefndir Cymysg arall
- O Arabaidd
- O Cefndir Ethnig Arall, rhowch fanylion: ______________
- O Ddim am ddweud

## HUNANIAETH GENEDLAETHOL

- O Cymreig
- O Seisnig
- O Albanaidd
- O Gwyddelig
- O Prydeinig
- O Arall rhowch fanylion: ______________
- O Ddim am ddweud

## STATWS CYFLOGAETH

- O Cyflogedig
- O Hunangyflogedig
- O Digyflog
- O Mewn addysg lawn-amser
- O Wedi ymddeol
- O Ceisiwr lloches / ffoadur
- O Di-waith

## ANABLEDD

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn amddiffyn pobl anabl. Mae'n diffinio person fel person anabl os oes ganddynt nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith andwyol sylweddol a thymor hir ar eu gallu i gyflawni gweithgareddau cyffredin pob dydd, sydd wedi para, neu y disgwylir iddo bara, o leiaf 12 mis.
Y model cymdeithasol o anabledd sy'n bwydo gwaith Youth Cymru. Mae'r model yn datgan taw'r ffordd y mae cymdeithas yn cael ei threfnu, yn hytrach na nam neu wahaniaeth y person, sy'n achosi anabledd. Mae'n edrych ar ffyrdd o ddileu'r rhwystrau sy'n cyfyngu ar ddewisiadau bywyd pobl anabl.

Ydych chi'n eich ystyried eich hun i fod yn berson anabl?

- O Ydw
- O Nac ydw
- O Ddim am ddweud

# Holiadur cyn y prosiect

Enw

.......................................................................................................

Ydych chi erioed wedi clywed am Fudiad y Swffragetiaid?

O Ydw
O Nac Ydw

Ar raddfa o 1-10, gydag 1 yn ddim, a 10 yn bopeth, faint ydych chi'n ei wybod am Fudiad y Swffragetiaid?

1 2 3 4 5 6 7 8 9 10

Ydych chi'n gwybod am unrhyw Swffragetiaid Cymreig?

O Ydw
O Nac Ydw

Ar raddfa o 1-10, gydag 1 yn ddim, a 10 yn bopeth, faint ydych chi'n ei wybod am orchestion Swffragetiaid Cymreig?

1 2 3 4 5 6 7 8 9 10

Os oeddech chi am newid rhywbeth yn eich cymuned, fyddech chi'n gwybod sut fynd ati?

Yn sicr Dim cliw I ryw raddau

On a scale of 1-10, 1 being nothing and 10 being everything, how much do you know about the young people in your community and their needs?

1 2 3 4 5 6 7 8 9 10

Ar raddfa o 1-10, gydag 1 yn ddim, a 10 yn bopeth, faint ydych chi'n ei wybod am y bobl ifanc yn eich cymuned a'u hanghenion?

O Byddwn
O Na fyddwn

Ar raddfa o 1-10, gydag 1 yn ddim, a 10 yn bopeth, faint ydych chi'n ei wybod am wleidyddiaeth?

1 2 3 4 5 6 7 8 9 10

Faint ydych chi'n ei wybod am fenywod a grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli a'u hawliau?

Llwyth! Ychydig bach Dim byd

Ar raddfa o 1-10, sut byddech chi'n gosod y datganiadau canlynol?

## Amdanoch Chi

"Rwy'n berson hyderus"

1 2 3 4 5 6 7 8 9 10

NID FI — MAE HYNNY MOR WIR

"Rwy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at fy nghymuned"

1 2 3 4 5 6 7 8 9 10

NID FI — MAE HYNNY MOR WIR

"Rwy'n teimlo bod gen i gysylltiadau da â phobl eraill yn fy nghymuned"

1 2 3 4 5 6 7 8 9 10

NID FI — MAE HYNNY MOR WIR

"Rwy'n gyffyrddus yn siarad â phob math o bobl"

1 2 3 4 5 6 7 8 9 10

NID FI — MAE HYNNY MOR WIR

"Rwy'n fy ngweld fy hun fel person creadigol"

1 2 3 4 5 6 7 8 9 10

NID FI — MAE HYNNY MOR WIR

Ydych chi'n teimlo bod "R'yn ni'n 100" yn mynd i'ch cynorthwyo chi?

O Ydw
O Nac Ydw


Rwy'n credu y bydd "R'yn ni'n 100" yn fy helpu;

O Gyda fy hyder
O I ddeall sut i newid pethau
O I ddysgu am fudiad y Swffragetiaid

Beth ydych chi'n gobeithio ei gyflawni o'r prosiect "R'yn ni'n 100"?

Gweithgaredd Torri'r Ia Enghreifftiol

# Y Swffragét Nodweddiadol



Nod y gweithgaredd yma yw gwneud i'r bobl ifanc siarad â'i gilydd, a'u sbarduno i feddwl am y pwnc. Does dim ots a ydyn nhw'n gwybod dim - neu os ydyn nhw'n gwybod llwyth am y Swffragetiaid, bydd y gweithgaredd yn rhoi cyfle i'r bobl ifanc drafod eu gwahanol syniadau am y Swffragét 'nodweddiadol'.

**ADNODDAU**

- Papur siart droi
- 30 x nodyn gludiog *(3 lliw gwahanol)*

## Y RHEOLAU

- Amlinellwch siâp menyw ar y papur siart troi. I wneud y gweithgaredd yn fwy o hwyl, gallech lynu sawl darn o bapur siart droi at ei gilydd a chreu amlinelliad un o'r bobl ifanc yn y grŵp.

- Rhowch un nodyn gludiog i bob person, ceisiwch eu hamrywio fel eich bod wedi dosbarthu 10 nodyn gludiog o bob lliw. Gofynnwch i'r bobl ifanc ddisgrifio eu syniad o Swffragét yn eu geiriau eu hunain.

- Dewiswch nodiadau gludiog o un lliw i'r pennawd "Cefndir". A oedd Swffragetiaid yn gyfoethog/tlawd? A oedden nhw'n addysgedig? Beth oedd eu hethnigrwydd? O ble'r oedden nhw'n dod? Beth oedd eu hoedran?

- Dewiswch liw arall ar gyfer "Golwg". Sut roedd y Swffragetiaid yn edrych?

- Defnyddiwch y nodiadau gludiog yn y lliw sydd ar ôl am "Nodweddion". A oedd y Swffragetiaid yn swnllyd? Yn afreolus? Yn swil? Yn gas?

- Gofynnwch i'r bobl ifanc ysgrifennu un gair am y categori o dan sylw ar eu nodyn gludiog a'i gosod ar y siart droi.

- Pan fo nodiadau gludiog pawb ar y papur siart droi, darllenwch nhw allan i bawb. Gofynnwch i'r grŵp a ydyn nhw'n cytuno â'r pethau mae pobl wedi eu hysgrifennu, a pham. Trafodwch y rhain.

# ADRAN 1

## Y SYMUDIAD SWFFRAGÉT



Adran 1, Sesiwn 1:

# Hanes Mudiad y Swffragetiaid

## NODAU

Nod y gweithgaredd yma yw helpu’r bobl ifanc i ddysgu am ddigwyddiadau allweddol yn hanes mudiad y Swffragetiaid. Byddant yn trafod materion yn eu grwpiau ac yn gwneud penderfyniadau’n seiliedig ar y ffeithiau sydd ganddynt.

## DEILLIANNAU


Bydd y bobl ifanc yn:

- Ymgysylltu wrth gynllunio eu dulliau eu hunain o’u mynegi eu hunain er mwyn cyfoethogi eu gwybodaeth am fudiad y Swffragetiaid

- Dysgu gan gyfoedion i ddwysáu eu dealltwriaeth am faterion cymdeithasol a gwleidyddol sy’n gysylltiedig â’r Swffragetiaid.

- Gweithio mewn grwpiau i wneud penderfyniadau gan ddefnyddio sgiliau datrys problemau

- Gwella eu gallu i ddadlau a thrafod materion gwleidyddol sy’n gysylltiedig â’r Swffragetiaid a’u cymunedau eu hunain




## ADNODDAU

- Cardiau Digwyddiad *(tud. 13-18)*
- Cardiau Dechrau a Diwedd *(tud. 12)*
- Adnodd Gwneud Rhoséd Swffragét (opsiynol) *(tud.19)*
- Taflen atebion (tud.22)
- Taflen deilliannau (tud.23)
- Papur Siart Droi (opsiynol)
- Peniau (opsiynol)

## ESBONIAD

**Yn y sesiwn yma, bydd y bobl ifanc yn gweithio mewn grwpiau i addysgu eu cyfoedion am ddigwyddiadau allweddol yn hanes y Swffragetiaid.**

**Darperir adnoddau fel eu bod yn gallu eu mynegi eu hunain ym mha bynnag ffordd y maent yn teimlo’n fwyaf cyffyrddus.**

**Wedyn byddan nhw’n cyflwyno’r digwyddiad o dan sylw i weddill y grŵp, yn penderfynu ymhle mae’n ffitio ar y llinell amser, ac yn trafod a oedd deilliannau’r digwyddiad yn negyddol neu’n gadarnhaol.**



Adran 1, Sesiwn 1:

# Hanes Mudiad y Swffragetiaid

## GWEITHGAREDD A (1 AWR)

**1.** Rhowch y cardiau "dechrau" a "diwedd" ar y wal i ddangos dechrau a diwedd llinell amser y digwyddiadau. Rhannwch y grŵp yn grwpiau llai o 5. Argymhellir eu bod yn dewis eu grwpiau ei hunain, am y byddan nhw'n teimlo'n fwyaf cyffyrddus wrth eu mynegi eu hunain.
**2.** Rhowch un o'r 6 Cherdyn Digwyddiad o'r pecyn adnoddau i bob grŵp, a gadewch iddynt eu darllen.
**3.** Rhowch awr i'r grwpiau gynllunio sut y byddant yn addysgu'r grwpiau eraill am y digwyddiad penodol yma. Bydd 5 munud ganddynt i wneud hyn, a gallant fod mor greadigol ag y maen nhw'n dewis.
Gallai esiamplau o ddulliau o gyfleu eu neges gynnwys:

- Cyfansoddi cân am y digwyddiad a'i pherfformio
- Paratoi sgript fer ac ail-greu'r digwyddiad
- Creu bwrdd stori gyda phapur siart droi a pheniau
- Llunio cyflwyniad/anerchiad am y digwyddiad
- Creu darn o waith celf

Nodyn: Esboniwch i'r bobl ifanc y cânt ddefnyddio unrhyw ddull o'u dewis, ond rhaid iddyn nhw esbonio'r digwyddiad yn fanwl fel bod eu cyfoedion yn gallu ei ddeall. e.e. Gall grŵp greu darlun a rhoséd Swffragetiaid, ond rhaid iddyn nhw siarad am beth ddigwyddodd hefyd fel ei fod yn glir i'r grwpiau eraill.

## GWEITHGAREDD B (40 MUNUD)

Rhowch 5 munud i bob grŵp gyflwyno eu digwyddiad i weddill y grwpiau, caniatewch ychydig o amser ar gyfer cwestiynau a thrafodaeth.

## GWEITHGAREDD C (20 MUNUD)


**1.** Nawr bydd y grwpiau i gyd yn cydweithio i benderfynu ym mha drefn y maen nhw'n meddwl y mae eu digwyddiadau'n digwydd ar y llinell amser.
**2.** Gofynnwch iddyn nhw lynu'r digwyddiadau ar y wal rhwng y cardiau "dechrau" a "diwedd". Pan fyddant wedi gorffen, datgelwch wir drefn y digwyddiadau. Gallwch edrych ar y daflen atebion i wneud hyn, mae'r daflen yn cynnig rhagor o wybodaeth am y digwyddiadau a'u dyddiadau.
**3.** Defnyddiwch y daflen deilliannau, a darllenwch y datganiadau. Gofynnwch i'r arweinwyr sefyll y naill ochr neu'r llall o'r ystafell, yn dibynnu a ydyn nhw'n credu bod y deilliant yn un CADARNHAOL neu NEGYDDOL. Caniatewch ar gyfer trafodaeth, gallech ofyn cwestiynau i fwydo'r drafodaeth, ond peidiwch â rhoi'r ateb na dweud wrth neb eu bod nhw'n anghywir.

**- DIWEDD Y GWEITHGAREDD -**

# DECHRAU

# DIWEDD





# ARESTIO SWFFRAGETIAID

Aeth Christabel Pankhurst a'i ffrind Annie Kenney i'r llys i wrando ar drafodaeth wleidyddol a chymryd rhan ynddi. Doedd dim sôn am y bleidlais i fenywod yn ystod y drafodaeth. Pan gododd cyfle i ofyn cwestiynau ar ddiwedd y drafodaeth, cododd Christabel ac Annie eu dwylo, ond cawsant eu hanwybyddu'n llwyr gan yr holl ddynion yn y llys. Dechreuodd y ddwy heclo'r gweinidogion a chawsant eu hebrwng allan gan yr heddlu.

Ar ôl cael eu trin yn arw, ac ar ôl i'r heddlu ddweud 'jyst ewch adre' wrthyn nhw sawl tro, penderfynodd Christabel wneud safiad, a phoerodd yn wyneb yr heddwas. Cafodd ei harestio.

Ar ôl y digwyddiad, bu rhaid i Christabel fynd i'r llys. Yno siaradodd ym mlwch y tystion gan ddweud "tra nad oes pleidlais gennym, rhaid i ni derfysgu."

# STREICIAU NEWYN

Cafodd llawer o Swffragetiaid eu harestio a'u carcharu am weithredu'n filwriaethus a therfysgu dros y bleidlais. Dechreuodd y Swffragetiaid wrthod bwyta am ei bod yn eu gweld eu hunain yn garcharorion gwleidyddol, a chymerodd llawer ohonynt ran mewn streiciau newyn.

Dechreuodd y swyddfa gartref boeni'n ofnadwy am hyn, am fod menywod yn dechrau mynd yn wan iawn. Roedden nhw'n poeni y byddai rhai yn marw yn eu gofal, ac y byddai'n creu delwedd wael iawn o'r Llywodraeth yn y cyfryngau. I ddatrys y broblem, dechreuodd y swyddfa gartref gorfodi bwyd arnynt. Roedd y menywod yn cael eu gorfodi i fwyta drwy diwb yn eu trwyn 3 gwaith y dydd, am sawl wythnos. Byddai rhywun yn eu dal i lawr, câi tiwb ei wthio i'w trwynau, a châi llaeth trwchus neu wisgi ei arllwys i'w cyrff trwy hidlwr mewn ymdrech i'w llenwi.

Cafodd llawer o Swffragetiaid eu poenydio trwy'r dull erchyll hwn.





# DYDD GWENER DU

Ceisiodd y Senedd yn San Steffan gyflwyno bil a fyddai'n rhoi'r hawl i bob menyw bleidleisio, ond gwrthododd y Prif Weinidog y cynnig. Mewn ymateb, arweiniodd Emmeline Pankhurst grŵp o 300 o Swffragetiaid ar orymdaith o wrthdystio y tu allan i ddrysau San Steffan. Ond roedd y Llywodraeth yn barod amdanyn nhw, ac roedd wal o 1000 o heddweision yn eu disgwyl. O fewn dim o dro, trodd yr heddlu eu holl nerth yn erbyn y dyrfa. Cafodd y menywod eu trin yn ffyrnig a dioddefodd rhai ymosodiadau rhywiol gan yr heddlu a gan rhai o'r dynion a oedd yn digwydd bod yna ac a benderfynodd drio'u lwc. Bu farw 2 fenyw yn ystod yr ymosodiad, a chafodd 115 o fenywod eu harestio a'u carcharu.

Pan gyhoeddwyd ffotograff o heddweision yn ymosod ar fenyw yn gorfforol ac yn ei tharo i'r llawr ar dudalen flaen y papur newydd, galwyd y diwrnod yn Ddydd Gwener Du. Achosodd hyn gryn embaras i aelodau'r Cabinet, ac roedden nhw'n sylweddoli eu bod wedi mynd yn rhy bell, felly cafodd yr holl garcharorion eu rhyddhau cyn y Nadolig.

# DIWRNOD Y DERBY

Un o ddilynwyr mudiad y Swffragetiaid oedd Emily Wilding Davison. Ymunodd â'r WSPU a chymerodd ran yng ngweithredu milwriaethus y mudiad.

Y Derby oedd ras geffylau enwocaf y byd ar y pryd, ac roedd yn cael ei chynnal yng Nghwrs Rasio Epsom. Roedd hi'n achlysur mor fawreddog y gallai'r teulu brenhinol ddod a rasio'u ceffylau yno. Roedd Anmer, ceffyl y Brenin yn rasio ar y diwrnod.

Wrth i'r ceffylau rasio rownd y gornel, roedd Anmer yn y safle olaf ond dau. Aeth Emily Wilding Davison o dan y rhwystr a thaflu ei hun o dan geffyl y Brenin. Cafodd Davison ei tharo gan holl rym carnau'r ceffyl ar garlam.

Cododd y gwrthdrawiad hi'n glir oddi ar y ddaear.


Bu farw yn yr ysbyty ychydig ddiwrnodau wedyn.

Roedd rhai pobl yn credu bod Emily Wilding Davison yn trio rhoi sash y Swffragetiaid ar geffyl y Brenin, a sathrodd y ceffyl arni yn y broses. Roedd eraill yn credu ei bod wir wedi marw dros yr achos.








TRIED TO MURDER CURTISS BENNETT

Suffragettes Almost Succeeded in Pushing Late Magistrate Over Cliffs

OUTRAGE AT BOATHOUSE


Militants Succeeded in Destroying Eton Craft for Henley—Created Scene at Royal Academy










The Daily Mirror

THE LATEST POLITICAL ARGUMENT: MR. LLOYD GEORGE'S NEW COUNTRY HOUSE WRECKED BY A BOMB.


SUFFRAGETTE OUTRAGE AT KING'S NORTON.



# LLOSGI BWRIADOL

Dechreuodd y Swffragetiaid gael eu harestio a'u carcharu am losgi adeiladau mawr gwag yn fwriadol. Protest oedd hyn yn erbyn y ffaith bod eiddo'n fwy teilwng a phwysig yn y gymdeithas na menywod. Er eu bod nhw'n targedu safleoedd a oedd at ddefnydd dynion yn unig, fel pafiliynau criced, roedden nhw'n targedu blychau postio gydag asid, gwifrau telegraff ac yn difrodi gweithiau celf hefyd.

Ffeindiwyd bom mewn can llaeth y tu allan i fynedfa Banc Lloegr. Yn ôl papur newydd The Times, mecanwaith celfydd a chymhleth oedd hi. Y tu fewn i'r can llaeth roedd amserydd oriawr, batri a phowdr ffrwydro, â'r cyfan wedi eu cysylltu â phinnau gwallt.

Mis yn ddiweddarach, yn Eglwys Gadeiriol Sant Paul, clywodd y glanhawr sŵn tician o dan gadair yr Esgob. Roedd y bom mewn tun mwstard wedi ei lapio mewn papur llwyd, ac o dan y pecyn roedd darn o bapur wedi ei rwygo allan o bapur newydd y Bleidlais i Fenywod.


# Y RHYFEL BYD CYNTAF

Yn ystod y rhyfel, rhoddodd y Swffragetiaid wrthdystio i'r neilltu er mwyn cymryd rhan yn ymdrechion y Rhyfel. Cododd y Rhyfel Mawr y cyfle i bobl sylweddoli bod dynion, a oedd â'r hawl i bleidleisio, ddim yn pleidleisio am eu bod nhw'n ymladd yn y rhyfel. Agorodd hyn lygaid pobl i'r ffaith y dylai'r etholaeth gynnwys menywod hefyd. Fodd bynnag, roedd tynged y bleidlais i fenywod yn dal i fod yn nwylo criw o ddynion.

Cymerodd rhyw 2 filiwn o fenywod le dynion mewn cyflogaeth, ac roedden nhw'n amhrisiadwy yn ystod ymdrech y Rhyfel. Roedden nhw'n gweithio mewn ffatrïoedd yn bennaf, ond ymunodd llawer ohonynt â Byddin y Tir. Roedd Byddin y Tir yn gwneud llawer o waith amaeth a ffermio, ac roedd pobl wedi meddwl am y swyddi hyn fel swyddi i ddynion o'r blaen.

Er bod y rhan fwyaf o fenywod yn ennill mwy nag yr oedden nhw cyn y Rhyfel, roedd gweithwyr mewn ffatrïoedd arfau'n dal i ennill cyn lleied â hanner cyflog dyn am gyflawni'r un swydd.

# Creu Rhoséd Swffragét




**1.** Torrwch siapau 1, 3, 4 a 5 a'u glynu wrth ei gilydd fel bod siapau 3, 4 a 5 i'w gweld dros ymyl gwaelod y cylch, gyda 5 yn y canol.

**2.**Torrwch siâp 6 yn 8 sgwâr unigol. Glynwch yr 8 sgwâr fel eu bod wedi eu gosod o amgylch y cylch.

**3.** Glynwch siâp 2 ar ganol siâp 1 gan ddefnyddio ffon glud neu dâp.

**4.** Addurnwch eich rhoséd!

# TREFN DIGWYDDIADAU'R LLINELL AMSER

## DECHRAU 1903

Emmeline Pankhurst yn sefydlu'r WSPU (Undeb Cymdeithasol a Gwleidyddol y Merched) a llawer o fenywod yn ymuno.

## ARESTIO SWFFRAGETIAID DECHRAU HYDREF 1905

Dilynodd llawer o Swffragetiaid esiampl Christabel ac Annie, ac fe ddechreuon nhw gymryd camau radical i geisio sbarduno newid trwy ddenu sylw'r cyfryngau. Fe ddechreuon nhw ddilyn Aelodau'r Cabinet ac ymosod arnynt yn y trefi lle'r oedden nhw'n byw.

## STREICIAU NEWYN DECHRAU 1909

Dechreuodd Swffragét o'r enw Marion Wallace Dunlop y streiciau newyn pan gafodd ei harestio am fandaleiddio wal yn San Steffan trwy ysgrifennu datganiad gwleidyddol am y bleidlais i fenywod. Dilynodd Swffragetiaid eraill ei hesiampl. Roedden nhw'n arwresau yn llygaid y bobl, a chawsant fedalau wrth ymadael â'r carchar.

## DYDD GWENER DU 8TH TACHWEDD 1910

Dywedwyd wrth y Swffragetiaid y bydden nhw'n cael pleidlais. Oherwydd hyn, galwodd y Swyddfa Gartref a'r Swffragetiaid GADOEDIAD. Rhoddodd y Llywodraeth y gorau i orfodi menywod i fwyta, a gohiriodd y Swffragetiaid eu gweithredu milwriaethus. Ond pan na chafwyd sôn am y bleidlais eto, digwyddodd Dydd Gwener Du. Cafodd Emmeline Pankhurst ei harestio ar ôl hyn, ond gwrthododd y Llywodraeth orfodi bwyd ar arweinydd y mudiad cyfan am y byddai hynny'n rhoi enw drwg iddynt. Felly cafodd ei rhyddhau. Ar ôl hynny, cynhaliodd gyfarfod yn Neuadd Albert lle galwodd ar yr holl Swffragetiaid a'i hannog i fod mor dreisgar a radical ac yr oedden nhw'n dymuno. Dywedodd y byddai'n cymryd cyfrifoldeb llwyr dros eu holl weithredoedd.

## LLOSGI BWRIADOL DECHRAU CHWEFROR 1913

Roedd y bomiau cartref hyn yn cael eu creu o eitemau domestig pob dydd, a'u gosod â rhyw fath o bropaganda'r Swffragetiaid ynghlwm wrthynt fel rheol. Gwnaeth un o fomiau'r Swffragetiaid ddifrod sylweddol i gartref a oedd yn cael ei adeiladu ar gyfer cynghorydd. Cymerodd Emmeline Pankhurst gyfrifoldeb am y bom am ei bod wedi annog yr ymddygiad milwriaethus. Cafodd ei harestio am hyn. Ar ôl hynny, cyflwynodd y Llywodraeth y Ddeddf Rhyddhau Dros Dro Oherwydd Afiechyd - a oedd yn golygu bod menywod yn cael eu rhyddhau pe baent yn mynd yn rhy wan yn y carchar. Ar ôl iddyn nhw iacháu gartref, byddent yn cael eu hail-garcharu er mwyn cwblhau eu dedfryd. Dechreuodd menywod redeg i ffwrdd a defnyddio cuddwisgoedd fel nad oedd modd eu hail-garcharu. Dechreuodd pobl alw'r ddeddf yn Ddeddf y Gath a'r Llygoden.

## DIWRNOD Y DERBY 4 MEHEFIN 1913

Gofalodd y Swffragetiaid am angladd Emily Wilding Davison, gan orymdeithio yn ei henw. Ar ei charreg bedd mae'r slogan "Gweithredoedd Nid Geiriau" ("Deeds Not Words") Ystyriwyd ei bod hi'n ferthyr i'r achos.

## Y RHYFEL BYD CYNTAF DECHRAU GORFFENNAF 1914

Yn fuan ar ôl diwedd y rhyfel, penderfynodd y Llywodraeth fod menywod wedi profi eu gwerth trwy eu gwaith yn ystod y Rhyfel, ac ym 1918 gwnaethant benderfyniad i roi'r bleidlais i fenywod.

## DIWEDD 1928

Cafodd menywod y bleidlais yn swyddogol ym 1918 trwy Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl, sy'n golygu ein bod ni'n dathlu 100 ers ennill yr hawl i bleidleisio eleni. Fodd bynnag, dim ond menywod dros 30 oed yr oedd eu gŵyr yn berchen ar eiddo oedd yn cael pleidleisio yn sgil y ddeddf. Roedd hyn yn golygu nad oedd pleidlais gan yr holl fenywod ifanc o'r dosbarth gweithiol o hyd. Oherwydd hyn, cafwyd gwrthdystiad mawr yn Sgwâr Trafalgar i brotestio yn erbyn arweinydd y blaid Geidwadol, Stanley Baldwin. Ym 1928, rhoddwyd y bleidlais i bob menyw dros 21 oed.

# DEILLIANNAU

## 1 ARESTIO SWFFRAGETIAID

**"Dechreuodd menywod gael eu harestio am eu gweithredoedd ac ymddangos yn y cyfryngau"**

**Awgrymiadau ar gyfer trafodaeth:** A yw cael eich arestio a'ch carcharu'n rhywbeth i fod yn falch ohono? A oedd y Swffragetiaid yn cael eu portreadu'n dda ynteu'n wael yn y cyfryngau? Ydych chi'n credu bod y bu hyn yn ffordd dda o godi ymwybyddiaeth am bwy oedd y Swffragetiaid?

## 2 STREICIAU NEWYN

**"Roedd menywod yn cael eu gorfodi i fwyta a'u poenydio yn y carchar, ac yn sgil hynny cawsant eu rhyddhau'n gynnar trwy Ddeddf y Gath a'r Llygoden"**

**Awgrymiadau ar gyfer trafodaeth:** A oedd y Swffragetiaid yn arwresau am fynd at streic newyn yn y carchar? A oedd y menywod hyn yn haeddu cael eu gorfodi i fwyta? A oedd Deddf y Gath a'r Llygoden yn beth da?

## 3 DYDD GWENER DU

**"Gorymdeithiodd menywod i San Steffan, ac ymosododd swyddogion yr heddlu arnynt yn gorfforol ac yn rhywiol, a gododd gywilydd cyhoeddus ar y Llywodraeth."**

**Awgrymiadau ar gyfer trafodaeth:** A ddylai'r heddlu fod wedi ymosod ar y Swffragetiaid am orymdeithio ar San Steffan? Ydych chi'n meddwl bod y sylw yn y cyfryngau ar ôl y digwyddiad wedi dangos sut roedd y Swffragetiaid yn cael eu trin?

## 4 LLOSGI BWRIADOL

**"Roedd gweithredu milwriaethus yn rhan fawr o'r frwydr dros y bleidlais i fenywod, roedd y cyhoedd a'r Senedd yn ofni'r Swffragetiaid ac yn ofni beth fydden nhw'n ei wneud nesaf"**

**Awgrymiadau ar gyfer trafodaeth:** A fyddai menywod wedi ennill y bleidlais pe na baen nhw wedi gweithredu'n dreisgar? A fyddech chi'n dweud bod eu trais yn debyg i weithredoedd o derfysgaeth? Ydych chi'n credu bod menywod wedi dechrau profi eu bod nhw'n gallu gwneud pethau eu hunain heb gymorth dynion?

## 5 DIWRNOD Y DERBY

**"Bu farw Emily Wilding Davison yn Epsom, a daeth yn ferthyr dros yr achos"**

**Awgrymiadau ar gyfer trafodaeth:** Ydych chi'n credu bod marwolaeth Davison yn gam pwysig tuag ennill y bleidlais ym 1918? Ydych chi'n credu bod ei marwolaeth wedi gwneud i'r cyhoedd sylweddoli pwysigrwydd y bleidlais, a'i heffaith ar bobl?

## 6 Y RHYFEL BYD CYNTAF

**"Ar ôl eu gwaith yn ystod y Rhyfel, pasiodd Senedd Prydain Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl, a roddodd bleidlais i fenywod cefnog dros 30 oed"**

**Awgrymiadau ar gyfer trafodaeth:** A oedd hi'n deg taw menywod dros 30 oed yr oedd eu gŵyr yn berchen ar eiddo yn unig oedd yn cael pleidleisio? Ydych chi'n teimlo bod y ffaith eu bod yn ennill y bleidlais o gwbl yn gam i'r cyfeiriad iawn ar gyfer hawliau merched? A fyddai menywod wedi cael y bleidlais pe na bai dynion wedi caniatáu iddyn nhw?

Adran 1, Sesiwn 2:

# Straeon Lleol

## NODAU

Nod y gweithgaredd yw bod pobl ifanc yn ymchwilio ac yn canfod eu gwybodaeth eu hunain am y Swffragetiaid. Byddan nhw'n dysgu am fudiad y Swffragetiaid yn eu hardaloedd eu hunain, ac yn addysgu gweddill y grwpiau. Bydd y bobl ifanc yn dysgu am y gwahaniaeth rhwng yr Etholfreinwyr a'r Swffragetiaid, gan ddefnyddio sefyllfaoedd modern i drafod a dadlau dros eu safbwyntiau.

## DEILLIANNAU

Bydd y bobl ifanc yn:

- Dysgu am ffigurau blaenllaw ym mudiad y Swffragetiaid yng Nghymru trwy waith ymchwil trylwyr ac addysgu cyfoedion.
- Dweud ymhle y brwydrodd menywod Cymreig dros y bleidlais, a sut effeithiodd hyn ar weddill Cymru.
- Defnyddio senarios modern i ehangu eu gwybodaeth am y gwahaniaeth rhwng dulliau'r Swffragetiaid a'r Etholfreinwyr.
- Cymharu'r dulliau o sbarduno newid BRYD HYNNY a NAWR, trwy drafod a dadlau.

## ADNODDAU

- 6 ffigur allweddol o blith y Swffragetiaid yng Nghymru *(tud.24)*
- Adnodd straeon lleol *(tud.26 - 27)*
- Templed papur newydd y Bleidlais i Fenywod *(tud.25)*
- Papur siart droi
- Peniau
- Llinyn


## ESBONIAD


**Yn ystod y gweithgaredd yma, bydd y bobl ifanc yn gweithio mewn grwpiau i ymchwilio i fenywod lleol a'u straeon yn ystod brwydr y Swffragetiaid.**

**Wedyn byddan nhw'n canfod ymhle yng Nghymru y digwyddodd y straeon hyn, ac yn llunio papur newydd am y Bleidlais i Fenywod.**

**Bydd yr hyrwyddwyr yn trafod ffyrdd o sbarduno newid ac yn trafod y gwahaniaeth rhwng dulliau'r Etholfreinwyr a'r Swffragetiaid.**



# Local Stories

## GWEITHGAREDD A (45 MUNUD)

**1.** Rhannwch y grŵp trwy roi rif rhwng 1 a 6 i bob un o'r bobl ifanc a gofyn iddynt ymuno â'u grwpiau.
**2.** Rhowch ffigur allweddol o'r pecyn adnoddau i bob grŵp, a gadewch iddyn nhw ymchwilio i atebion i'r cwestiwn gosod. Gallwch roi arweiniad iddynt gan ddefnyddio'r adnodd straeon lleol sydd ynghlwm.
**3.** Rhowch dempled papur newydd y Bleidlais i Fenywod i bob grŵp, a gofyn iddyn nhw lunio eu tudalen flaen eu hun yn seiliedig ar y ffigur allweddol o dan sylw a'u heffaith ar fudiad y Swffragetiaid.

## GWEITHGAREDD B (45 MUNUD)

**1.** Gofynnwch i'r bobl ifanc dynnu map o Gymru ar ddarn o bapur siart droi, a naill ai ei lynu wrth y wal neu ei osod allan yn wastad ar fwrdd. (Gallwch lynu ychydig ddarnau o bapur siart droi at ei gilydd i greu map mwy os dymunwch).
**2.** Gofynnwch i bob grŵp ddod i fyny yn eu tro a glynu eu herthyglau papur newydd wrth y map gan ddefnyddio darn o linyn, a nodi pa ran o Gymru oedd yn arwyddocaol i'r ffigur allweddol yna
**3.** Dylai pob grŵp siarad â phawb arall am eu ffigur allweddol.
**4.** Nodwch sut roedd rhai menywod yn Etholfreinwyr ac eraill yn Swffragetiaid. Gofynnwch i'r bobl ifanc drafod beth ydyn nhw'n meddwl oedd y gwahaniaeth rhwng y ddau grŵp. Defnyddiwch y pecyn adnoddau i ganfod gwybodaeth am hyn.

## GWEITHGAREDD C (30 MUNUD)

**1.** Rhannwch y grŵp o bobl ifanc yn ddau, y naill yn Etholfreinwyr a'r llall yn Swffragetiaid.
**2.** Rhowch senario iddynt lle mae eu hawliau'n cael eu cymryd y ffwrdd, gallwch addasu hyn at eich grŵp chi o bobl ifanc. Er enghraifft, gallech chi ddweud "Mae'r holl bobl yn yr ystafell hon wedi eu gwahardd rhag mynd i siopau coffi", neu rywbeth mwy difrifol fel "Ni chaiff neb o'r bobl ifanc yn yr ystafell fynd i'r ysgol a chael addysg mwyach."
**3.** Dywedwch wrth y grwpiau taw'r rhain yw'r cyfreithiau newydd, a bod rhaid iddynt frwydro i ennill eu hawliau nôl. Rhaid i'r naill ochr ddefnyddio dulliau'r Swffragetiaid, a rhaid i'r llall ddefnyddio dulliau'r Etholfreinwyr. (Treisgar/radical V Di-drais/radical).
**4.** Dywedwch wrth y grwpiau i ysgrifennu eu syniadau ymgyrchu ar ddarn o bapur siart droi. Rhowch 15 munud iddynt.
**5.** Ar ddiwedd y 15 munud, gofynnwch i'r grwpiau fwydo eu syniadau nôl. Trafodwch y gwahaniaeth rhwng dulliau'r Swffragetiaid a'r Etholfreinwyr.
**6.** Caniatewch ar gyfer trafodaeth bellach am sut mae dulliau o sbarduno newid wedi datblygu dros y blynyddoedd. Pe bai menywod yn cyflawni gweithredoedd fel rhai'r Swffragetiaid heddiw, beth fyddai'r goblygiadau?

**- DIWEDD Y GWEITHGAREDD -**

### EDITH MANSELL MOULIN

- Ble cafodd hi ei geni?
- Beth oedd ei phroffesiwn?
- Beth wnaeth hi dros y mudiad?
- Ymhle y gwnaeth hi'r rhan fwyaf o'i gwaith?
- Unrhyw ffeithiau eraill?

### RACHEL BARRETT

- Ble cafodd hi ei geni?
- Beth oedd ei phroffesiwn?
- Ble fu'n astudio?
- Beth wnaeth hi dros y mudiad?
- Unrhyw ffeithiau eraill?

### MARGARET MACKWORTH *(NEU ARGLWYDDES Y RHONDDA)*

- Ble cafodd hi ei geni?
- Beth wnaeth hi dros y mudiad?
- Ymhle y buodd hi'n gweithredu?

### ROSE MARY CRAWSHAY

- Ble cafodd hi ei geni?
- Beth wnaeth hi dros y mudiad?
- Unrhyw ffeithiau eraill?

### ELIZABETH ANDREWS

- Ble cafodd hi ei geni?
- Beth wnaeth hi dros y mudiad?
- Ymhle y buodd hi'n gweithredu?
- Unrhyw ffeithiau eraill?

### DAVID LLOYD GEORGE

- Pwy oedd e?
- Pam oedd y Swffragetiaid yn ei gasáu?
- Ymhle y cafodd ei dargedu?

*"Pleidlais I Fenywod,"* Chwefror, 1918.

***Y Papur Rhyfel i Ferched***

# PLEIDLAIS I FENYWOD

ORGAN SWYDDOGOL Y SUFFRAGISTAU UNEDIG

CYF. IX. (Cyfres Pedwerydd) RHIF. 436 CHWEFROR, 1918. Pris 1d. Yn Fisol(Post Am Ddim lgd)

Golygydd gan Emmeline Pethick Lawrence

**DEDICATION**

"To the brave women who to-day are fighting for freedom: to the noble women who all down the ages kept the flag flying and looked forward to this day without seeing it: to all the women all over the world, of whatever race, or creed or calling, whether they be with us or against us in this fight, we dedicate this paper."

**EDITH MANSELL MOULIN** **SWFFRAGÉT**

- Geni yn Lloegr - o dras Gymreig
- Meddyg
- Sefydlodd Undeb y Bleidlais yng Nghymru a oedd â'i ffocws ar ennill y bleidlais i fenywod yng Nghymru. Cymerodd ran yng ngwrthdystiad Hyde Park ac fe'i carcharwyd am brotestio. Anogodd y Cymry i wisgo eu gwisg genedlaethol i'r gwrthdystiad
- Teithiodd o gwmpas gogledd Cymru yn annerch pobl – yn Ynys Môn a Bangor yn bennaf
- Heddychwraig oedd hi a gwrthododd roi'r gorau i'r frwydr dros y bleidlais i gymryd rhan yn y Rhyfel

**RACHEL BARRETT** **SWFFRAGÉT**

- Geni yng Nghaerfyrddin- a'i magu yn Llandeilo
- Athrawes wyddoniaeth oedd hi
- Astudiodd ym Mhrifysgol Aberystwyth
- Roedd hi'n cynrychioli'r WSPU ac yn medru'r Gymraeg. Taflodd y gynulleidfa fomiau blawd ati wrth iddi annerch rali yng Nghaerdydd. Cyfieithodd ddogfennau Etholfraint y Llywodraeth Gymraeg, a chreodd bamffledi dros y Bleidlais yn y Gymraeg a'u dosbarthu o gwmpas y wlad.
- Daeth yn ffigur allweddol ym mudiad y Swffragetiaid yng Nghymru a Lloegr. Cafodd ei phenodi'n olygydd ar gylchgrawn "The Suffragette". Llwyddodd i ddianc o'r carchar ar ôl cael ei gorfodi i fwyta am fisoedd.

**MARGARET MACKWORTH *(NEU ARGLWYDDES Y RHONDDA)*** **SWFFRAGÉT**

- Geni yn Llundain
- Roedd hi'n weithredwraig filwriaethus dros ben. Cafodd ei charcharu am ffrwydro blwch postio yng Nghasnewydd, ac aeth ar streic newyn wedyn. Neidiodd ar gar y Prif Weinidog hefyd pan wrthododd roi'r bleidlais i fenywod.
- Roedd hi'n gwerthu papur newydd "Votes for Women" yn ninasoedd Caerdydd a Chasnewydd. Siaradodd yn gyhoeddus mewn mannau fel Clwb Rhyddfrydol Merthyr Tudful lle taflodd pobl domatos ati.

## ROSE MARY CRAWSHAY

**ETHOLFREINWRAIG**

- Geni yn Lloegr - byw ym Merthyr Tudful
- Roedd hi'n gweithio i ennill yr hawl i bleidleisio yn lleol ym Merthyr Tudful . Roedd hi'n un o'r 26 cyntaf â chyfeiriad yng Nghymru i dorri ei henw ar y ddeiseb gyntaf erioed dros y bleidlais ym 1866. Sefydlodd lyfrgelloedd am ddim, fel y gallai menywod gael gafael ar lyfrau. Roedd hi'n rhoi gwersi gwnïo a brodio am ddim i fenywod i'w galluogi i wneud eu dillad eu hunain. Sefydlodd y cynllun "Cymorth i fenywod" er mwyn cael swyddi i fenywod fel morwynion mewn cartrefi cyfoethog.
- Hi oedd meistres Castell Cyfarthfa, a throdd y castell yn ganolfan gymorth i bobl. Sefydlodd geginau cawl, ac aeth i ymweld â theuluoedd 49 dyn a laddwyd mewn tanchwa mewn pwll glo.

## ELIZABETH ANDREWS

**ETHOLFREINWRAIG**

- Geni ym Mhenderyn
- Roedd hi'n aelod o'r Blaid Lafur, a ffocws ei gwaith oedd helpu gwragedd dosbarth gweithiol y glowyr. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd tai yn orlawn o bobl ac roedd iechydaeth yn wael. Roedd y straen o godi powlenni trwm o ddŵr berw ar gyfer baddonau'r dynion yn creu salwch difrifol mewn menywod ac yn achosi genedigaethau cyn pryd. Cyflwynodd faddonau pen pwll i ddatrys y broblem.
- Roedd hi'n gweithio yng Nghwm Rhondda

## DAVID LLOYD GEORGE

- Aelod Seneddol Rhyddfrydol.
- Er iddo siarad yn gyhoeddus gan ddweud ei fod yn cefnogi mudiad y Swffragetiaid, roedd methiant y Llywodraeth Ryddfrydol i newid dim na rhoi'r bleidlais i fenywod yn gwneud i'r Swffragetiaid feddwl ei fod yn wrth-etholfreiniwr yn dawel bach.
- Cafodd ei heclo gan Swffragetiaid mewn anerchiad yng Nghaernarfon, yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam, ac yn agoriad neuadd bentref yn Llanystumdwy. Taflodd Swffragetiaid daflegrau at ei gartref hefyd.

## NODIADAU

Dylid nodi bod y Swffragetiaid yn cymryd rhan mewn gweithgarwch milwriaethus, ac roeddent yn aml yn cael eu carcharu a'u gorfodi i fwyta. Roedd yr Etholfreinwyr yn canolbwyntio ar sbarduno newid trwy ddulliau di-drais ac an-radical.

Nid oedd gweithredu milwriaethus yn nodwedd o'r mudiadau yng Nghymru. Roedd y mwyafrif o'r menywod a fu'n brwydro dros y bleidlais yng Nghymru'n etholfreinwyr, ac roeddent yn ceisio ennyn cefnogaeth y Senedd a'r cyhoedd trwy ddulliau gwleidyddol a heddychlon.

Menywod dosbarth canol o Loegr oedd llawer o'r menywod a oedd yn arwyddocaol i'r frwydr dros y bleidlais yng Nghymru. Gellid dadlau y bu Cymru'n dilyn yn hytrach nac arwain yr agenda cenedlaethol. Ond roedd hi'n dal i gofleidio teimlad o falchder a gwerthoedd cenedlaethol a oedd yn gyferbyniol i rai eu cymdogion yn Lloegr.

# ADRAN 2

## DINASGARWCH

Adran 2, Sesiwn 1:

# Dinasgarwch

## NODAU

Nod y gweithgaredd yma yw addysgu'r bobl ifanc ychydig bach am hanes democratiaeth yn y DU. Byddan nhw'n adnabod clustnodi problemau yn eu cymuned ac yn dysgu am y camau y gallant eu cymryd i sbarduno newid.

## DEILLIANNAU

Bydd y bobl ifanc yn:

- Dysgu ychydig am hanes democratiaeth yn y DU


- Gweithio mewn grwpiau i ddatrys problemau, ac yn trafod pa rwystrau sy'n atal pobl ifanc rhag cymryd rhan mewn gwleidyddiaeth

- Dysgu am ddatganoli ac yn cysylltu hyn â'u sefyllfaoedd bywyd go iawn eu hunain, ac yn datblygu eu gwybodaeth am ddinasgarwch yn eu cymunedau.



1969

Etholiad Cyffredinol y DU



## ADNODDAU

- **Adnodd 'Hanes cryno Democratiaeth' *(tud.32-34)***
- **Taflen Grynhoi *(tud.35-36)***
- **Adnodd Datganoli *(tud.37)***
- **Taflen Atebion Datganoli *(tud.38)***
- **Adnodd Pobl Ifanc Ysbrydoledig *(tud.39-42)***
- **Llinyn**
- **Papur siart droi**
- **Peniau**

## ESBONIAD

Yn ystod y sesiwn hon, bydd y bobl ifanc yn defnyddio llinyn i greu amserlen o ddigwyddiadau, byddan nhw'n trafod rhai digwyddiadau gyda'u cyfoedion a beth oedden nhw'n credu byddai'r deilliannau. Byddan nhw'n gweithio mewn grwpiau hefyd i siarad am y rhwystrau sy'n wynebu pobl ifanc. Bydd y bobl ifanc yn dysgu am ddatganoli, a sut mae eu pleidlais yn cael ei defnyddio yng Nghymru. Byddan nhw'n gweld esiamplau o bobl ifanc ysbrydoledig i'w hysbrydoli a'u cymell i feddwl am eu syniadau eu hunain i fynd ati i sbarduno newid.

# Dinasgarwch



## GWEITHGAREDD A (1 AWR)

**1.** Esboniwch fod y grŵp yn mynd i gydweithio i fapio hanes cryno rhai o'r pwyntiau allweddol yn natblygiad democratiaeth yn y DU. Bydd hyn yn helpu i ddatblygu dealltwriaeth am sut mae ein cymdeithas ddemocrataidd yn edrych, a sut ddaethon ni i'r pwynt yma. Dosbarthwch y cardiau adnodd ymysg y grwpiau.
**2.** Gofynnwch i'r bobl ifanc ddal y llinyn ar wahanol bwyntiau ar ei hyd, fel ei fod yn cael ei ymestyn naill ai fel llinell syth, neu'n crymu o gwmpas yr ystafell
**3.** Galwch y cerdyn cyntaf (1832) a gofyn i'r person ifanc sy'n ei ddal ddod i sefyll ar ddechrau'r darn o linyn. Gofynnwch gan bwy mae'r cerdyn â'r digwyddiad sy'n cyd-fynd â'r dyddiad hwnnw. Os nad oes neb yn cynnig, gofynnwch i'r person â'r "Ddeddf Diwygio" ddod i sefyll wrth ymyl y person â 1832. Gofynnwch a oes unrhyw un wedi clywed am y ddeddf, a beth maen nhw'n gwybod amdani. Defnyddiwch y daflen grynhoi fel offeryn i addysgu'r bobl ifanc am y digwyddiad hwn. (Rhowch gymaint neu gyn lleied o wybodaeth ag y gwelwch yn briodol i'r grŵp.)
**4.** Gofynnwch gan bwy y mae'r dyddiad nesaf ar ôl 1832, a phwy sy'n dal cerdyn y digwyddiad cyfatebol. Gofynnwch i'r ddau sefyll yn y llinell nesaf, wedyn gofynnwch a oes rhywun yn ymwybodol o'r digwyddiad. Unwaith eto, defnyddiwch y daflen grynhoi i esbonio'r digwyddiad. Parhewch fel hyn nes i chi gyrraedd etholiad dirybudd 2017. Bydd angen i'r bobl ifanc barhau i newid lle wrth gadw hyd y llinyn wedi ei ymestyn.
**5.** Crynhowch trwy ddweud bod y digwyddiadau allweddol hyn wedi cyflunio ein cymdeithas a'u bod yn parhau i wneud hynny. Esboniwch fod ein democratiaeth yn dal i ddatblygu, a bod cyfreithiau'n cael eu pasio sy'n effeithio ar ein hawliau a'n cyfrifoldebau fel dinasyddion. Gofynnwch i'r grŵp feddwl am unrhyw gyfreithiau allweddol dros yr hanner can mlynedd diwethaf sydd wedi newid agweddau ar ein cymdeithas
**6.** Dosbarthwch y cardiau Cyfreithiau Modern Allweddol a gofynnwch i'r bobl ifanc eu gosod eu hunain ar hyd y llinell yn ôl dyddiad y gyfraith. Pan fo pawb yn eu lle, gofynnwch i bawb ddarllen beth sydd ar eu cerdyn yn uchel.
**7.** Gofynnwch i'r grŵp sut maen nhw'n meddwl mae'r gymdeithas wedi elwa ar y cyfreithiau hyn. (Cynnig i'w hannog: Mae menywod ar eu hennill yn sgil Deddf Cyflogau Cyfartal 1970 am eu bod yn gallu disgwyl ennill yr un faint â dyn am wneud yr un gwaith neu waith cyfatebol, a gallant gymryd camau os nad yw hynny'n digwydd.)
**8.** Nodwch taw un o'r agweddau allweddol ar fyw mewn democratiaeth yw trefn y gyfraith. Mae hyn yn golygu bod y Llywodraeth yn ymgynghori ar ddeddfwriaeth ac yna'n ei chynnig i'r Senedd yn Llundain. Wedyn gall Aelodau Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi drafod y cynigion a phleidleisio arnynt. Os yw'r mwyafrif yn pleidleisio o blaid, gall y cynigion ddod yn gyfraith yn y pendraw

Agwedd bwysig o drefn y gyfraith yw bod yn Llywodraeth yn rhwym wrth y gyfraith yn ogystal â phob un dinesydd.
Mae llawer o gyfreithiau wedi cael eu creu can systemau democrataidd o amgylch y byd i greu hawliau a rhyddid cyfartal. Gellir gweld hyn o'r esiamplau yn y gweithgaredd hwn. Mae'r rhyddid i ddinasyddion ymgyrchu, archwilio a beirniadu ac i newid pethau er mwyn creu dyfodol gwell ar gyfer ein cymdeithas yn agweddau allweddol ar fyw mewn democratiaeth hefyd.

# Dinasgarwch

## GWEITHGAREDD B (30 MUNUD)

**1.** Rhannwch bawb yn grwpiau, a dosbarthwch bapur siart droi a pheniau.

**2.** Gofynnwch i'r bobl ifanc "Pa rwystrau sy'n atal pobl ifanc rhag chwarae rhan mewn gwleidyddiaeth?" Gofynnwch iddyn nhw drafod yn eu grwpiau, ac ysgrifennu eu hatebion.

**3.** Casglwch adborth gan yr holl grwpiau.

## GWEITHGAREDD C (30 MUNUD)

**1.** Esboniwch ddatganoli i'r bobl ifanc.
**CYNNIG:** Edrychwch ar bethau fel hyn-
Mae Llywodraeth Cymru fel ysgol, a Phrif Weinidog Cymru (Carwyn Jones) yw'r pennaeth. Mae holl Aelodau'r Cynulliad yn athrawon yn yr ysgol. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n gweithredu fel Estyn, ac yn dod i mewn i archwilio a chraffu ar Lywodraeth Cymru. (Efallai y gallwch greu diagramau i wneud hyn yn haws i'w deall).

**2.** Defnyddiwch yr adnodd datganoli. Torrwch y logos unigol allan ac esboniwch beth ydyn nhw. (San Steffan, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a ffeindiwch logo eich cyngor eich hun). Glynwch nhw wrth y wal mewn llinell, neu gosodwch nhw allan ar fwrdd.

**3.** Torrwch y cardiau unigol allan a gofynnwch i'r bobl ifanc eu gosod wrth bwy y maen nhw'n meddwl sy'n gofalu am y materion hyn. Ai rhywbeth y byddai'r cyngor lleol yn delio ag ef, y Cynulliad Cenedlaethol neu'r Senedd yn San Steffan?

**4.** Defnyddiwch y daflen atebion a thrafodwch resymau'r bobl ifanc dros roi eu hatebion gyda nhw.

Y Cyngor Lleol

Addysg

Y gwasanaethau ieuenctid

Yr Amgylchedd

Iechyd

Bysiau a chludiant lleol

Yr oedran pleidleisio mewn etholiadau cyffredinol

# Dinasgarwch



## GWEITHGAREDD D (1 AWR 20 MUNUD)

**1.** **Dangoswch y fideo yma am sut mae pleidleisiau pobl yn cyfri yng Nghymru:**
**https://www.youtube.com/watch?v=nVWGqHXXEW8**
**2.** **Caniatewch i'r bobl ifanc fynd ar eu ffonau am 10 munud i ganfod pwy yw eu 5 Aelod o'r Cynulliad trwy ddilyn y ddolen hon:**
**http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgFindMember.aspx**
**3.** **Dywedwch wrth y bobl ifanc sut y gallan nhw sbarduno newid yn eu cymuned:**

**Mae sawl ffordd o fynd at eich gwleidyddion i sbarduno newid. Gallwch:**

Fynd ar-lein a chwilio am yr AS neu'r AC rydych am siarad â nhw, bydd eu cyfeiriad e-bost yno a gallwch anfon neges e-bost atynt. Yn gyfreithiol rhaid iddyn nhw anfon neges e-bost nôl atoch cyn pen 30 diwrnod, felly rydych chi'n siŵr o gael ateb

Ewch i gymhorthfa. Bydd Aelodau'r Cynulliad yn eich ardal yn trefnu sgyrsiau a thrafodaethau leol sy'n agored i bawb, a gallwch siarad â nhw yno. E-bostiwch neu ffoniwch nhw i ofyn pryd ac ymhle y byddan nhw'n cynnal eu cymhorthfa nesaf.

Paratowch ddeiseb, mynnwch lofnodion, wedyn cyflwynwch nhw i Aelod o'r Cynulliad naill ai mewn cymhorthfa neu yn y Cynulliad Cenedlaethol. Yn Llundain, mae angen 100,000 o lofnodion ar ddeiseb cyn y gellir ei hystyried. Fodd bynnag, dim ond 10 llofnod sydd eu hangen er mwyn i ddeiseb fynd gerbron bwrdd pwyllgor am drafodaeth yng Nghymru.

Cynhaliwch brotest heddychlon y tu allan i Gynulliad Cenedlaethol Cymru os nad yw eich lleisiau'n cael eu clywed! Mae pobl yn aml yn gwneud hyn y tu allan i'r Senedd er mwyn codi ymwybyddiaeth am eu hymgyrch.

**4.** **Torrwch y cardiau pobl ifanc ysbrydoledig allan, (lamineiddiwch nhw) a daliwch nhw yn yr awyr. Gofynnwch i'r bobl ifanc a ydyn nhw'n gwybod pwy yw'r bobl yma, a darllenwch y wybodaeth am sut y gwnaethon nhw sbarduno newid ar gefn y cardiau.**
**5.** **Rhannwch y bobl ifanc yn grwpiau, a dosbarthwch y papur siart droi a'r peniau. Rhowch 20 munud iddynt daflu syniadau am beth maent am ei newid yn eu cymuned, pwy sy'n gwneud y penderfyniad yna, a sut y bydden nhw'n mynd ati. Gofynnwch iddyn nhw roi adborth i'r grwpiau eraill.**

| | |
|---|---|
| 1832 | Y Ddeddf Diwygio |
| 1838 - 1848 | Mudiad y Siartwyr |
| 1918 | Y Bleidlais Gyntaf i Fenywod |
| 1928 | Menywod yn ennill hawliau cydradd i bleidleisio |
| 1969 | Dynion a Menywod yn cael pleidleisio'n 18 oed |
| 2010 | Llywodraeth Glymblaid |
| 2014 | Refferendwm Annibyniaeth yr Alban |
| 2015 | Etholiad Cyffredinol y DU |
| 2016 | Refferendwm BREXIT |
| 2017 | Etholiad Dirybudd |

# CYFREITHIAU MODERN ALLWEDDOL

## DEDDF CYSYLLTIADAU HILIOL (1965)

Y darn cyntaf o ddeddfwriaeth i'w gwneud yn anghyfreithlon gwahaniaethu yn erbyn pobl ar sail lliw eu croen, eu hil, neu eu tarddiad ethnig neu genedlaethol. Ychwanegwyd at y ddeddf ac fe'i diwygiwyd sawl tro, ac mae hi wedi cael ei disodli'n fwyaf diweddaf gan y Ddeddf Cydraddoldeb (2010).

## Y DDEDDF CYFLOGAU CYFARTAL (1970)

Mae'r ddeddf hon yn pennu'r hawl i gyflogau cyfartal, ac amodau a thelerau cyflogaeth cyfartal rhwng dynion a menywod. Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010) yn cwmpasu cyflogau cyfartal erbyn hyn.

## Y DDEDDF GWAHANIAETHU AR SAIL ANABLEDD (1995)

Hon oedd y darn cyntaf o ddeddfwriaeth i geisio rhoi diwedd ar wahaniaethu yn erbyn pobl anabl. Cafodd y Ddeddf ei diweddaru yn 2005, ac mae Deddf Cydraddoldeb (2010) yn cwmpasu gwahaniaethu yn erbyn pobl anabl erbyn hyn).

## DEDDF IECHYD MEDDWL (1983)

Roedd y Ddeddf hon yn cwmpasu triniaeth a gofal pobl â salwch meddwl yng Nghymru a Lloegr, gan gyfeirio'n benodol at dderbyn pobl i'r ysbyty a'u trin heb eu caniatâd. Cafodd y Ddeddf ei diwygio a'i diweddaru'n sylweddol yn 2007.

## DEDDF PLANT (1989)

Mae'r Ddeddf hon sy'n cwmpasu Cymru a Lloegr yn datgan sut y dylid bodloni anghenion plant o ran eu lles a'u datblygiad, gan gynnwys yr angen i'w hamddiffyn rhag niwed. Am y tro cyntaf roedd yna ddyletswydd gyfreithiol i gymryd anghenion a dymuniadau plant i ystyriaeth mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Cafodd y Ddeddf ei diweddaru yn 2004.

## MESUR HAWLIAU PLANT A PHOBL IFANC CYMRU (2011)

Pwrpas y Mesur arfaethedig yma yw gosod dyletswydd ar Weinidogion a Phrif Weinidog Cymru i roi ystyriaeth ddyledus i'r hawliau a'r rhwymedigaethau a bennwyd yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) wrth wneud penderfyniadau am sut i ymarfer y swyddogaethau y mae ganddynt i'w hymarfer.

Mae UNCRC yn cynnwys 54 o erthyglau sy'n cwmpasu pob agwedd ar fywyd plentyn ac sy'n pennu'r hawliau sifil, gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol y mae gan blant ym mhob man yr hawl i fanteisio arnynt. Mae'n esbonio hefyd sut y mae angen i oedolion a llywodraethau gydweithio i sicrhau y gall bob plentyn fwynhau eu holl hawliau.

# TAFLEN GRYNHOI

## 1832 Deddf Diwygio

- Gelwir y ddeddf hon hefyd yn Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl, y Ddeddf Diwygio Gyntaf, neu'r Ddeddf Diwygio Fawr
- Creodd y Ddeddf 67 etholaeth newydd
- Cafodd wared ar 56 o etholaethau llygredig, lle'r oedd perchnogion tir neu deuluoedd cyfoethog yn aml yn prynu eu sedd yn Senedd Prydain
- Cynyddodd nifer y bobl a oedd yn gymwys i bleidleisio o 400,000 i 650,000
- Er ei bod hi'n dal i olygu taw dim ond yr 14% o ddynion mwyaf cyfoethog a oedd yn gallu pleidleisio, roedd hi'n dangos bod newid yn bosibl
- Arweiniodd pobl i alw am ddiwygio Seneddol pellach.

## 1838 - 1848 Mudiad y Siartwyr

- Mudiad y Siartwyr oedd y mudiad torfol cyntaf i gael ei arwain gan bobl dosbarth gweithiol
- Tyfodd y mudiad yn sgil methiant Deddf Diwygio 1832 i estyn y bleidlais i bobl nad oeddent yn berchen ar eiddo
- Lluniodd y Siartwyr ddeiseb, Siarter y Bobl, a oedd yn gofyn am chwe pheth:
    - Pleidlais i bob dyn dros 21 oed
    - Pleidlais ddirgel i osgoi achosion o lygredigaeth a bygwth
    - Etholiadau Seneddol blynyddol
    - Etholaethau â nifer gymharol gyfartal o bleidleiswyr
    - Talu cyflog i Aelodau Seneddol fel y gallai pobl dlotach sefyll mewn etholiadau
    - Na ddylai fod yn rhaid i Aelodau Seneddol fod yn berchen ar eiddo
- Roedd llawer o Siartwyr yn cefnogi diwygiadau cymdeithasol eraill gan gynnwys hawl menywod i bleidleisio, a chyfyngu ar oriau gwaith ffatrïoedd
- Ym 1842, cyflwynodd y Siartwyr ddeiseb i'r Senedd a oedd wedi cael ei llofnodi gan bron i draean o boblogaeth Cymru, Lloegr a'r Alban ar y pryd - dros dair miliwn o lofnodion (3,317,752) i gyd. Cafodd ei chario yno gan 30 o bobl mewn gorymdaith dros ddwy filltir o hyd
- Ond trechwyd y Siartwyr; pleidleisiodd yr Aelodau Seneddol i beidio â chaniatáu iddynt gyflwyno eu hachos gerbron Tŷ'r Cyffredin
- Cafodd llawer o'r Siartwyr eu carcharu neu eu halltudio
- Cafodd y mudiad ei ddirwyn i ben yn raddol ond teimlwyd ei effeithiau ymhen hir a hwyr. Cafodd dau o'u gofynion eu bodloni yn y pendraw: erbyn 1858, nid oedd angen i Aelodau Seneddol fod yn berchen ar eiddo i fod yn gymwys i sefyll i gael eu hethol i'r Senedd, a chyflwynwyd y bleidlais ddirgel er mwyn atal rigio etholiadau (Deddf Pleidleisio 1872)
- Erbyn 1918, roedd holl ofynion y Siartwyr wedi cael eu bodloni ond am un: nid yw etholiadau Seneddol yn cael eu cynnal yn flynyddol.

## 1918 Y Pleidleisiau Cyntaf i Fenywod

- Ar ôl brwydr hir gan grwpiau menywod (y Swffragetiaid a'r Etholfreinwyr) a'u cefnogwyr i ennill y bleidlais i fenywod, y gydnabyddiaeth i waith menywod yn ystod y Rhyfel Mawr oedd y peth a'i gwnaeth yn amhosibl parhau i wrthod y bleidlais i fenywod yn y pendraw.
- Rhoddwyd pleidlais i bob dyn dros 21 oed, pob menyw dros 30 oed, a menywod dros 21 oed a oedd yn berchen ar eiddo neu a oedd yn briod â dyn oedd yn berchen ar eiddo yn Neddf Cynrychiolaeth y Bobl 1918.
- Roedd hyn yn golygu bod tua wyth miliwn o fenywod yn gallu pleidleisio mewn etholiadau cenedlaethol. Cwta 40% o fenywod oedd yn perthyn i'r categori hwn.

## 1928 Menywod yn ennill cydraddoldeb etholiadol

- Yn Neddf Cynrychiolaeth y Bobl 1928, gwelwyd pob menyw dros 21 oed, dim ots a oedd yn berchen ar eiddo neu beidio, yn cael yr hawl i bleidleisio.

PARHAD

## 1969 Dynion a menywod yn cael pleidleisio'n 18 oed

• Gostyngodd Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1969 yr oedran pleidleisio fel bod pob dinesydd yn cael bwrw pleidlais yn 18 oed.

## 2010 Llywodraeth Clymblaid

• Ffurfiodd y Blaid Geidwadol a Phlaid y Democratiaid Rhyddfrydol lywodraeth glymblaid yn dilyn Etholiad Cyffredinol 2010
• Hon oedd y glymblaid gyntaf mewn dros 70 mlynedd
• Ffurfiwyd y glymblaid am nad oedd gan unrhyw blaid wleidyddol fwyafrif digonol o Aelodau Seneddol i ffurfio llywodraeth a fyddai'n gallu gweithio'n effeithiol.

## 2014 Refferendwm annibyniaeth yr Alban

• Ddydd Iau, 18 Medi 2014, cynhaliwyd refferendwm ar annibyniaeth yr Alban. Cwestiwn y refferendwm oedd: 'A ddylai'r Alban fod yn wlad annibynnol?' Mae'r Alban yn dal i fod yn rhan o'r DU am i 55.3% bleidleisio yn erbyn, a 44.7% o blaid
• Er mwyn cael pleidleisio yn y refferendwm, roedd angen i chi fod dros 16 oed ar 18 Medi 2014 ac yn byw yn yr Alban. Roedd rhaid i chi fod yn ddinesydd Prydain, un o wledydd cymwys y Gymanwlad neu'r Undeb Ewropeaidd hefyd.

## 2015 Etholiad Cyffredinol y Deyrnas Unedig

• Mae Deddf Seneddau Tymor Penodol (2011) yn darparu ar gyfer cynnal etholiadau cyffredinol ar ddydd Iau cyntaf mis Mai bob pum mlynedd.
• Cafodd llywodraeth Geidwadol fwyafrifol ei hethol ym mis Mai 2015. Dyddiad yr etholiad nesaf am etholiad newydd oedd mis Mai 2020.

## 2016 Refferendwm BREXIT

• Neu Refferendwm yr UE
• Cynhaliwyd y refferendwm i bwyso a mesur y gefnogaeth am i'r DU aros yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd neu ymadael â hi
• Y canlyniad oedd bod 51.9% o'r rhai a bleidleisiodd o blaid ymadael â'r UE
• Dechreuodd y broses o ymadael â'r UE ar 29 Mawrth 2017, ac mae hyn yn golygu bod yr UE ar y trywydd i ymadael â'r UE erbyn 30 Mawrth 2019, ar ôl cyfnod o drafodaethau BREXIT.

## 2017 Etholiad Dirybudd

• Cynhaliwyd etholiad cyffredinol dirybudd ym mis Mehefin 2017, yn sgil cyhoeddiad y Prif Weinidog Theresa May cwta dau fis cyn hynny
• Ei rheswm dros alw'r etholiad dirybudd oedd cryfhau ei nerth yn nhrafodaethau Brexit
• Roedd y blaid Geidwadol yn amddiffyn mwyafrif o 17 sedd yn erbyn y Blaid Lafur dan arweiniad Jeremy Corbyn
• Canlyniad yr etholiad oedd senedd grog, sy'n golygu nad oedd gan unrhyw blaid benodol fwyafrif llwyr o seddi
• Daeth mwy o bobl ifanc allan i bleidleisio yn yr etholiad hwn nac ar unrhyw adeg arall ers 25 mlynedd.

# Adnodd Datganoli

Y Cyngor Lleol

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

| | | |
|---|---|---|
| Arian a’r arian treigl | Y lluoedd arfog | Y gwasanaethau ieuenctid |
| Iechyd | Tai | Nawdd Cymdeithasol (lles a budd-daliadau) |
| Addysg | Gwastraff ac ailgylchu | Yr Amgylchedd |
| Mewnfudiad a Chenedligrwydd | Yr oedran pleidleisio mewn etholiadau cyffredinol | Ffyrdd a llwybrau cerdded |
| Parciau a gwasanaethau hamdden lleol | Bysiau a chludiant lleol | Plismona |
| Gwasanaethau Tân ac Achub | Priffyrdd a chludiant cenedlaethol | Llyfrgelloedd |

# Taflen Atebion Datganoli

**Y Cyngor Lleol**

- Bysiau a chludiant lleol
- Y gwasanaethau ieuenctid
- Llyfrgelloedd
- Parciau a gwasanaethau hamdden lleol
- Gwastraff ac ailgylchu
- Ffyrdd a llwybrau cerdded

---

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

National Assembly for Wales

- Iechyd
- Yr Amgylchedd
- Tai
- Addysg
- Gwasanaethau Tân ac Achub
- Priffyrdd a chludiant cenedlaethol

---

- Y lluoedd arfog
- Arian a'r arian treigl
- Mewnfudiad a Chenedligrwydd
- Plismona
- Nawdd Cymdeithasol (lles a budd-daliadau)
- Yr oedran pleidleisio mewn etholiadau cyffredinol

# POBL IFANC YSBRYDOLEDIG







## MALALA YOUSAFZAI

- Cafodd Malala ei saethu yn ei phen gan y Taliban yn 2012 pan oedd yn 15 oed am ei bod yn hybu hawliau merched i gael addysg.
- Goroesodd ei hanafiadau, a daeth yn ymgyrchydd rhyngwladol dros hawliau dynol, hawliau merched a'r hawl i bob plentyn a pherson ifanc gael addysg.
- Sefydlodd Ymddiriedolaeth Malala, sy'n helpu merched mewn gwledydd sy'n datblygu i fynd i'r ysgol ac yn galw am yr hawl i addysg.

stephen's story



## STEPHEN SUTTON

- Cafodd Stephen ddiagnosis o ganser marwol yn 2014.
- Roedd e am wneud y byd yn lle gwell a chododd £3 miliwn cyn iddo farw
- Mae'r ymdrechion i godi arian yn parhau a chodwyd dros £5 miliwn erbyn hyn

# POBL IFANC YSBRYDOLEDIG



## LILY MADIGAN

- Aeth Lily i'r ysgol un diwrnod yn gwisgo gwisg ysgol y merched a chafodd ei hanfon adref. Dywedodd y pennaeth wrthi os nad oedd hi am wisgo gwisg y bechgyn, yna dylai fynd i rywle arall.
- E-bostiodd Madigan y pennaeth, a dechreuodd ddeiseb. Pan na weithiodd hynny, chwiliodd am gyfreithiwr a phenderfynodd rywun ei chynorthwyo.
- Ysgrifennodd y cyfreithiwr lythyr at y pennaeth yn hysbysu'r ysgol am eu dyletswyddau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb. Roedd hyn yn cynnwys caniatáu i Madigan wisgo gwisg y merched, ac i'r staff a'r disgyblion ddefnyddio ei henw dethol, Lily, a rhagenwau benywaidd.

## WHIZZ-KIDZ

- Gyda chwta 97 llofnod, bu deiseb gan yr elusen plant, Whizz-Kids yn llwyddiannus wrth alw ar Lywodraeth Cymru i wneud cludiant cyhoeddus yng Nghymru'n fwy hygyrch i bobl anabl.
- Gwyliwch stori Josh :
**https://www.youtube.com/watch?v=Lmf4IERRG-Q**

# ADRAN 3

## PECYN GWEITHREDU CYMDEITHASOL



Adran 3, Sesiwn 1:

# Pecyn Gweithredu Cymdeithasol

**FELLY, rydych chi wedi dysgu am hanes y Swffragetiaid - beth yw'r cam nesaf?**
**Rydych chi'n mynd i greu eich Prosiect Gweithredu Cymdeithasol Dathlu ac Addysgu eich hun.**

**Beth mae hyn yn ei olygu?**
**Mae hi'n amser sbarduno newid yn eich cymuned. Byddwch chi'n creu eich prosiect eich hun i arddangos, dathlu ac addysgu'r gymuned leol am etholfraint, a phwysigrwydd ymgysylltiad dinesig i bobl ifanc.**

**SUT BYDDWCH CHI'N GWNEUD HYN?**
Mewn grwpiau, byddwch chi'n penderfynu beth rydych chi am ei wneud i addysgu eich cymuned am etholfraint. Byddwch chi'n addysgu pobl eraill am beth rydych chi wedi ei ddysgu am sbarduno newidiadau yn y gymdeithas hefyd, a sut i fynd ati i wneud hyn.

**Gallai hyn fod ar ffurf:**

- Achlysur
- Ffilm fer
- Perfformiad dramatig
- Dawns
- Cerddoriaeth
- Celf

**BYDDWCH MOR GREADIGOL AG Y GALLWCH CHI!**

## NODAU

Nod y pecyn hwn yw eich tywys chi trwy'r broses o gynllunio eich Prosiect Gweithredu Cymdeithasol. Gallwch ddefnyddio hyn fel canllaw i feddwl pa gamau rydych chi'n bwriadu eu cymryd, a sut y byddwch chi'n cyflawni'ch targedau

## DEILLIANNAU

Byddwch chi'n:

- Defnyddio sgiliau gwaith tîm a datrys problemau i glustnodi materion yn eich cymuned yr ydych am eu newid.
- Llunio cynllun prosiect manwl i ddatblygu sgiliau trefnu a rheoli amser.
- Adnabod eich cryfderau a'ch gwendidau eich gilydd, a fydd yn eich helpu chi i ddewis rolau eich tîm o fewn y grŵp.
- Addysgu cyfoedion a'r cyhoedd am y bleidlais i fenywod, y broses ddemocrataidd a sut y gallant chwarae rhan mewn bywyd dinesig.
- Llunio prosiect a fydd yn sbarduno ac yn cysylltu eich cymuned a'ch cyfoedion.



# I FFWRDD A NI...

Tasg 1

# Cynllun Prosiect

## BETH YW EICH PROSIECT?

## BETH MAE'N EI GYNNWYS?

## PWY FYDD Y PROSIECT YN EI DARGEDU?

PARHAD

Tasg 1

# Cynllun Prosiect

## SUT BYDD Y GYMUNED YN ELWA ARNO?

## YMHLE Y BYDD E'N DIGWYDD?

## SUT BYDDWCH CHI'N HYBU'CH PROSIECT?

Tasg 2


# Rolau'r Tîm

**1.** Defnyddiwch ddarn o bapur siart droi, a lluniwch ddwy golofn - 'ENW' A 'RÔL'

**2.** Trafodwch er mwyn penderfynu ar rolau holl aelodau'r tîm fel grŵp. Ceisiwch feddwl am eich cryfderau unigol, a pha fath o rôl y byddai hyn yn eich helpu i'w chyflawni.

**3.** Os oes gennych gyllideb grŵp, ceisiwch ddynodi rhywun i fod yn gyfrifol am y gyllideb, fel eu bod yn gallu ei dosbarthu'n deg.

**4.** Tynnwch lun o'ch siart droi a chadwch hi fel tystiolaeth ar ddiwedd y prosiect.



Tasg 3

**BETH YW EICH RÔL?** ..............................

**BETH YW EICH CYLLIDEB BERSONOL? (os yw'n berthnasol)** ..............................

| TARGED | CAMAU | DYDDIAD CYFLWYNO | DYDDIAD CWBLHAU |
|---|---|---|---|
| | | | |

# Cyflawni

Cofnodwch eich dyddiadau cyflawni yma.

| CYFLAWNI | DYDDIAD | SAWL PERSON OEDD YNO? | GWAHODDEDIGION? PWY | TYSTIOLAETH |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

Tasg 4

# Gwerthuso'r Cyflwyniad

## BETH AETH YN DDA?

## BETH NAD AETH CYSTAL?

## BETH GALLAI FOD WEDI CAEL EI WNEUD YN WAHANOL?

# TYSTIOLAETH A MONITRO

**Esiamplau o dystiolaeth:**

- Erthyglau papur newydd
- Deunyddiau marchnata
- Ffotograffau
- Dolenni fideo
- Esiamplau o waith
- Ymgysylltu'r cyhoedd
- Dyfyniadau
- Holiadur cyn y prosiect i'r cyhoedd *(tud. 6-7)*
- Holiadur ôl-brosiect i'r cyhoedd *(tud. 51-53)*
- Astudiaeth achos gan eich gweithiwr ieuenctid *(tud. 50)*

## DOLENNI PWYSIG

*youthcymru.org.uk*
*www.walesonline.co.uk*
*www.amgueddfa.cymru*
*www.bbc.co.uk/cymru*
*www.gov.wales/topics/people-and-communities/?lang=cy*
*www.walesartsreview.org/suffrage-special/*
*www.telegraph.co.uk/film/suffragette/famous_suffragettes*
*cy.wikipedia.org/wiki/Hafan*
*www.bbc.co.uk/programmes/b0b5y4zg*
*www.bbc.co.uk*
*www.parliament.uk*
*www.youthdebates.org*

*Nid yw Youth Cymru'n derbyn unrhyw gyfrifoldeb dros gynnwys gwefannau allanol.*

# Astudiaeth Achos

ENW

**Sut mae'r person ifanc yma wedi gwella trwy'r prosiect?**

**Beth maen nhw wedi ei gyflawni?**

**Pa sgiliau a gwybodaeth maen nhw wedi ei gael o'r prosiect?**

Llofnod

# Holiadur ôl-brosiect

Enw

.......................................................................................................

Ar raddfa o 1-10, gydag 1 yn ddim, a 10 yn bopeth, faint ydych chi'n ei wybod am Fudiad y Swffragetiaid?

1 2 3 4 5 6 7 8 9 10

Ar raddfa o 1-10, gydag 1 yn ddim, a 10 yn bopeth, faint ydych chi'n ei wybod am orchestion Swffragetiaid Cymreig?

1 2 3 4 5 6 7 8 9 10

Os oeddech chi am gyflawni newid yn eich cymuned, fyddech chi'n gwybod sut fynd ati?

Yn sicr Dim cliw I ryw raddau

Ar raddfa o 1-10, gydag 1 yn ddim, a 10 yn bopeth, faint ydych chi'n ei wybod am y bobl ifanc yn eich cymuned a'u hanghenion?

1 2 3 4 5 6 7 8 9 10

Fyddech chi'n gwybod pa wleidyddion i gysylltu â nhw pe baech am newid rhywbeth penodol?

O Ydw
O Nac Ydw

Ar raddfa o 1-10, gydag 1 yn ddim, a 10 yn bopeth, faint ydych chi'n ei wybod am wleidyddiaeth?

1 2 3 4 5 6 7 8 9 10

Faint ydych chi'n ei wybod am fenywod a grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli a'u hawliau?

Llwyth! Ychydig bach Dim byd

Ar raddfa 1-10 sut byddech chi'n gosod y datganiadau canlynol?

Ydych Chi Wedi Newid

"Rwy'n berson hyderus"

1 2 3 4 5 6 7 8 9 10

NID FI MAE HYNNY MOR WIR

"Rwy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at fy nghymuned"

1 2 3 4 5 6 7 8 9 10

NID FI MAE HYNNY MOR WIR

"Rwy'n teimlo bod gen i gysylltiadau da â phobl eraill yn fy nghymuned"

1 2 3 4 5 6 7 8 9 10

NID FI MAE HYNNY MOR WIR

"Rwy'n gyffyrddus yn siarad â phob math o bobl"

1 2 3 4 5 6 7 8 9 10

NID FI MAE HYNNY MOR WIR

"Rwy'n fy ngweld fy hun fel person creadigol"

1 2 3 4 5 6 7 8 9 10

NID FI MAE HYNNY MOR WIR

**PARHAD**

## Ydych Chi Wedi Newid

Ydych chi'n credu bod y prosiect "R'yn ni'n 100" wedi eich helpu chi?

- O Ydw
- O Nac Ydw

Helpodd y prosiect "R'yn ni'n 100" fi;

- O Gyda fy hyder
- O I ddeall sut i newid pethau
- O I ddysgu am fudiad y Swffragetiaid

Pa wersi allweddol ydych chi wedi eu dysgu o'r prosiect hwn?

Am ba mor hir ydych chi'n credu y byddwch chi'n cofio'r holl bethau rydych chi wedi eu dysgu trwy "R'yn ni'n 100?"

- O 2 wythnos
- O 1 mis
- O 3 mis
- O 6 mis
- O 1 flwyddyn
- O Am Byth

Pam ydych chi'n credu y byddwch chi'n cofio'r wybodaeth yma am y cyfnod yna?

**DIOLCH!**

# GEIRFA

**Aelod o'r Cynulliad** • Mae Aelodau'r Cynulliad yn cael eu hethol i gynrychioli ardal benodol yng Nghymru fel aelodau o blaid wleidyddol (er enghraifft: y Blaid Geidwadol, y Blaid Lafur, Plaid Cymru neu Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru) neu fel aelodau annibynnol.

**BREXIT** • Y ffugenw a roddwyd i'r bleidlais i'r DU yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd yn 2016. Cyfansoddair cywasgedig o'r geiriau "British" (neu "Britain") ac "exit" yw hi.

**Bil** • Drafft o gyfraith arfaethedig sy'n cael ei chyflwyno am gymeradwyaeth corff deddfu.

**Clymblaid** • Cynghrair, yn enwedig un dros dro, o bobl, carfanau, pleidiau neu genhedloedd.

**Etholiad** • Y weithred neu'r broses o ddewis rhywun i gyflawni swydd neu swyddogaeth

**Democratiaeth** • Llywodraethu gan y bobl, sy'n cael ei ymarfer naill ai'n uniongyrchol neu trwy gynrychiolwyr etholedig.

**Datganoli** • Trosglwyddo pwerau o Lywodraeth ganolog i unedau lleol.

**Gwahaniaethu** • Triniaeth neu ystyriaeth sy'n seiliedig ar ddosbarth neu gategori, fel hil neu ryw, yn hytrach na theilyngdod unigolyn; tueddfryd neu ragfarn.

**Etholaeth** • Y grŵp o bleidleiswyr y mae deddfwr etholedig yn ei gynrychioli, neu'r rhanbarth lle maent yn byw.

**Undeb Ewropeaidd** • Sefydliad a ffurfiwyd ym 1993 gyda'r nod o sicrhau undeb economaidd a gwleidyddol agosach rhwng aelod-wladwriaethau'r Gymuned Ewropeaidd. Yr aelodau ar hyn o bryd yw Awstria, Gwlad Belg, Bwlgaria, Croatia, Cyprus, Gweriniaeth Tsiecaidd, Denmarc, Estonia, y Ffindir, Ffrainc, yr Almaen, Gwlad Groeg, Hwngari, Iwerddon, yr Eidal, Latfia, Lithwania, Lwcsembwrg, Malta, yr Iseldiroedd, Gwlad Pwyl, Portiwgal, Rwmania, Slofacia, Slofenia, Sbaen, Sweden a'r DU.

**Deddfwriaeth** • Deddf, neu grŵp o gyfreithiau sy'n cael eu cynnig neu eu cyhoeddi

**Aelod Seneddol** • Aelod o Dŷ'r Cyffredin

**Refferendwm** • Yr egwyddor neu'r arfer o gyfeirio mesurau sy'n cael eu cynnig neu eu deddfu gan gorff deddfu i bleidlais yr etholaeth i'w cymeradwyo neu eu gwrthod.

**Diwygio** • Gwella trwy newid, cywiro gwall, neu ddileu diffygion, rhoi ar ffurf neu mewn cyflwr gwell.

**Etholfraint** • Yr hawl neu'r fraint o bleidleisio

Nodiadau


# Pecyn i Bobl Ifanc ar yr Hawl i Bleidleisio

"I think WE ARE 100 is a project which makes us much more aware of the significance of the Suffrage movement, the need to vote, and the importance of getting our voices heard as young women in todays society.

I have really enjoyed creating this Toolkit, and I hope it inspires young people to become positive and active citizens in their communities."

**Anna Arrieta**

youthcymru.org.uk




Llywodraeth Cymru
Welsh Government